

Rhif: WG17079



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynigion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2012

Cynigion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru

- Cynulleidfa** Yr holl gyrff sy'n ymwneud â'r meysydd addysg, gan gynnwys asiantaethau cyflogaeth, awdurdodau lleol, gweithwyr ieuenctid a gweithwyr chwarae, darparwyr hyfforddiant addysg a chyrff dyfarnu.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a'r adborth am yr ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Nathan Huish
Yr Is-adran Cyflawni a Safonau Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3039
e-bost: practicereviewanddevelopment@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Gellir gweld y dogfennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Cynnwys

Cefndir	1
Ymgynghoriad	2
Crynodeb	3
Cwestiwn 1	3
Cwestiwn 2	4
Cwestiwn 3	5
Cwestiwn 4	5
Cwestiwn 5	6
Cwestiwn 6	7
Cwestiwn 7	8
Cwestiwn 8	8
Cwestiwn 9	9
Cwestiwn 10	10
Cwestiwn 11	10
Cwestiwn 12	11

Cefndir

Ym mis Chwefror 2011, cyflwynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews AC, ei agenda, drwy ei gynllun gweithredu ugain pwynt ar gyfer addysg yng Nghymru, er mwyn codi safonau a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad cyfredol.

I gyflawni'r agenda hon, mae'r Gweinidog wedi'i gwneud yn glir bod angen sicrhau bod y gweithlu addysg, o'r Cyfnod Sylfaen hyd at 14-19 oed, yn gweithio gyda'i gilydd fel un grŵp cydlynus o weithwyr proffesiynol, sy'n cydweithredu i wella safonau addysg a chyrhaeddiad ar gyfer pobl Cymru.

Ym mis Rhagfyr 2011 lansiodd y Gweinidog ymgynghoriad oedd yn nodi cynnig y dylai'r gofyniad sydd ar athrawon i gofrestru gyda chorff proffesiynol gael ei ymestyn er mwyn cynnwys sector ehangach a fydd yn cynnwys addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a staff cymorth dysgu mewn ysgolion.

Ar 10 Medi 2012 cyhoeddodd y Gweinidog ymgynghoriad arall yn rhoi manylion am:

- y proffesiynau y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru;
- datblygu cod ymddygiad cyffredin i'r proffesiynau a nodir;
- sut y bydd y corff cofrestru'n gweithredu gan gynnwys ei reolaeth, ei weithgorau a'i brosesau disgyblu;
- sut y caiff data eu casglu a'r bwriad i'w rhannu'n ddienw gyda chyflogwyr er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o gynllunio'r gweithlu;
- rôl y corff yn y gwaith o sicrhau bod hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus o'r ansawdd gorau; ac
- ystod awgrymedig o ffioedd blynyddol y byddai angen i unigolion eu talu.

Fodd bynnag, cyn y gall y Gweinidog gyflawni hyn mae angen deddfwriaeth sylfaenol a bydd y cynigion hyn yn cael eu cyflwyno ym Mil Addysg (Cymru).

Ymgynghoriad

Dosbarthwyd yr ymgynghoriad ar draws nifer o sectorau allweddol gan ddefnyddio ystod o rwydweithiau a chafodd ei gyhoeddi yng nghylchlythyrau Dysg. Hefyd, cynhaliodd rhai o'r rhanddeiliaid allweddol hyn ddigwyddiadau i drafod eu hymatebion ar y cyd i'r ymgynghoriad.

Cafwyd 47 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

Cafwyd yr ymatebion gan y sectorau canlynol

Ymatebydd	Nifer yr ymatebion
Cyrff Dyfarnu	4
Undebau Athrawon	7
Awdurdodau Lleol	4
Ysgolion, Colegau a Phrifysgolion	12
Darparwyr Hyfforddiant Addysg	1
Sefydliadau ac Elusennau Cenedlaethol	13
Gweithwyr Ieuenctid a Gweithwyr Chwarae	3
Amrywiol	3
Cyfanswm	47

Mae'r ddogfen hon yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad, wedi'i strwythuro o gwmpas yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn. Nid yw'n ceisio crisialu pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr ond yn hytrach mae'n tynnu sylw at y materion a themâu allweddol. Gellir gweld rhestr lawn o'r ymatebwyr ynghyd â'u hymatebion yn Atodiad A.

Crynodeb

Cwestiwn 1

Ydych chi'n credu ein bod wedi pennu'r grwpiau iawn i'w cofrestru yn y lle cyntaf?

O'r 47 o ymatebwyr, roedd 77% yn cytuno'n gyffredinol mai'r grwpiau oedd wedi'u pennu yn yr ymgynghoriad oedd y rhai iawn, at ei gilydd, ac nid oedd 2% yn credu bod angen ymestyn cofrestru y tu hwnt i athrawon ysgol. Roedd y 21% arall naill ai'n ansicr am y cwestiwn hwn neu ni roesant ateb pendant.

Nododd yr ymatebwyr a gynigiodd sylwadau ar y cwestiwn hwn amrywiaeth o faterion oedd yn cynnwys y canlynol:

- Dylai'r holl bersonél sy'n gweithio gyda phlant orfod cofrestru ac o ganlyniad bod yn destun rhyw fath o sancsiwn os nad ydynt yn dilyn y cod ymddygiad.
- Mae'n hanfodol i'r gweithlu addysg gael ei ddiffinio'n glir. Mae angen mwy o eglurhad ar ba staff yn union, yn y grwpiau hyn, sydd i gael eu cofrestru.
- Mae angen cymryd gofal wrth ddiffinio'r grwpiau y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru, fel nad yw'n peri i'r rheiny sydd â'r profiad angenrheidiol mewn diwydiant beidio â gweithio yn y sector AB neu ddysgu seiliedig ar waith.
- Roedd yr ymatebwyr hynny oedd â staff oedd yn asesu a gwirio dysgu yn credu y dylai fod yn ofynnol iddynt gofrestru os oeddent yn gweithio yn y sectorau perthnasol y byddai'n ofynnol iddynt gofrestru.
- Rhaid cymryd gofal i beidio â thanseilio statws proffesiynol athrawon oherwydd y nod o ymestyn y gofyniad i gofrestru.
- Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr angen i'r rheiny sy'n gweithio yn y sector ysgolion annibynnol gael eu cofrestru.
- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai gofyniad i gofrestru'n dod â chydabyddiaeth o'u rôl mewn dysgu ac yn rhoi iddynt rywfaint o broffesiynoldeb.
- Nid yw gweithwyr ieuencid yn cyd-fynd yn dwt gyda'r grwpiau eraill a restrir yn yr ymgynghoriad o gofio nad ydynt yn ymwneud yn sylfaenol ag addysgu neu gynorthwyo addysgu, a theimlai rhai ymatebwyr nad oedd yn briodol iddynt gael eu cofrestru.
- Gofynnodd ymatebwyr hefyd am ragor o gyngor ynglŷn ag a fyddai'n ofynnol i'r rheiny sy'n cyflenwi addysgu uwch neu'r rheiny sy'n gweithio ym maes addysg gymunedol i oedolion gofrestru.
- Dylai cofrestru ddigwydd fesul cam er mwyn sicrhau bod y broses wedi ymwreiddio'n dda ar gyfer pob grŵp.
- Dylai gweithwyr chwarae gael eu cofrestru hefyd gan eu bod yn cyfrannu at ddysgu yng Nghymru.

- Efallai y bydd yn briodol hefyd cynnwys staff addysgu a chymorth ym meysydd Dysgu Oedolion a'r Gymuned fel categori ar wahân.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno na ddylai staff sy'n darparu cymorth megis cymorth gweinyddol yn y lleoliad gael eu cofrestru i ddechrau.
- Gofynnodd rhai ymatebwyr sut y dylai staff nad ydynt ond yn gweithio'n achlysurol gael eu trin yn nhermau'r gofynion cofrestru.

Cwestiwn 2

Ydy'r cynnig i gasglu'r holl ddata am y gweithlu, gan gynnwys cymwysterau i ddechrau cyn pennu'r gofynion sylfaenol ar gyfer cofrestru, yn briodol ac yn deg?

O'r 47 o ymatebwyr, roedd 68% yn cytuno mewn egwyddor bod casglu data cyn pennu'r gofynion sylfaenol ar gyfer cofrestru'n deg ac roedd 6% yn gwrthwynebu'r cynnig hwn ac yn disgwyl y byddai Llywodraeth Cymru'n ymgynghori'n llawn â hwy am natur a maint y data a gâi eu casglu. Roedd y 26% arall naill ai ag amheuan ynghylch y cwestiwn hwn neu ni roesant ateb pendant.

Nododd yr ymatebwyr a gynigiodd sylwadau ar y cwestiwn hwn amrywiaeth o faterion oedd yn cynnwys y canlynol.

- Mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ers amser maith wedi cael toreth o brofiad ond heb fod â chynifer o gymwysterau; mae'r gweithwyr hyn yn werthfawr iawn a dylid rhoi'r dewis/cyfle iddynt 'weithio tuag at' gymhwyster a'r gofyniad sylfaenol ar gyfer cofrestru.
- O gofio argymhellion presennol Comisiynydd y Gymraeg i Lywodraeth Cymru ynghylch safonau posibl ar gyfer gwasanaethau dwyieithog yn y sector cyhoeddus, mae cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau ymarferwyr o ran siarad a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig.
- Gallai grwpiau fel gweithwyr ieuenctid fod yn ddawnus yn academiaidd ond heb y sgiliau priodol i ymgysylltu â phobl ifanc, o angenrheidrwydd.
- Efallai y byddai casglu data o dan enwau unigolion yn gwneud i'r gweithlu deimlo'n fregus. Mae'n ddigon posibl y bydd ychydig mwy o eglurhad ynghylch sut y caiff y data eu casglu a'u defnyddio'n tawelu meddwl y gweithlu ehangach.
- Mae angen i unigolion sy'n rhannu data wybod sut y byddai'n cael ei rannu a gyda phwy.
- Yn ystod y cyfnod gweithredu, byddai'n well i'r gwiriadau addasrwydd presennol ar athrawon barhau ar yr un pryd ag adeiladu'r broses ar gyfer y grwpiau eraill hyd nes y gellir sefydlu diffiniadau clir.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod hwn yn gyfle i leihau nifer y troeon mae data'n cael eu casglu ar gyfer gwahanol ofynion cynllunio'r gweithlu, ac y gellid rhannu set gynhwysfawr o ddata (yn amodol ar faterion yn ymwneud â diogelu data) gan gynorthwyo â gweithgareddau mewn amryw o gyrff gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Cwestiwn 3

Ydych chi'n credu y bydd y trefniant o ddull gweithredu dau gam yng nghyswllt y broses ddisgyblu yn meithrin hyder yn y proffesiynau ac yn y rhieni/gofalwyr, y plant a'r bobl ifanc maent yn eu gwasanaethu?

O'r 47 o ymatebwyr, roedd 52% yn cytuno y byddai dull gweithredu dau gam yn meithrin hyder yn y proffesiwn. Roedd y 48% arall naill ai â phryderon ynghylch y dull gweithredu hwn neu ni roesant ateb pendant.

Nododd yr ymatebwyr a gynigiodd sylwadau ar y cwestiwn hwn amrywiaeth o faterion oedd yn cynnwys y canlynol.

- Dylid cadw'r system sydd gan CyngACC eisoes gan fod hon yn caniatáu ar gyfer galw i gyfrif athrawon sy'n peidio â chydymffurfio â'r cod ymddygiad, neu sy'n anghymwys neu'n berygl i blant.
- Mae rhai o'r argymhellion a gynigir i sicrhau cysondeb, megis cael cadeirydd lleyg i'r pwyllgor, yn ddiangen o bosibl, ac nid ydynt yn ychwanegu gwerth at y broses.
- Ni ellir cynnal hyder ond drwy broses ddisgyblu sydd nid yn unig yn drylwyr, yn deg ac yn gyfiawn, ond sy'n cael ei hystyried yn drylwyr, yn deg ac yn gyfiawn. Mae'r un mor bwysig ei bod yn cael ei deall, ei gwerthfawrogi a'i chefnogi gan gyflogwyr.
- Byddai rhagor o arweiniad ar y dull gweithredu dau gam yn cael ei groesawu.
- Mae angen i'r ymadrodd 'addasrwydd i ymarfer' gael ei ddiffinio yn y Bil fel nad yw'n cael ei ddrysu â ffactorau'n ymwneud ag iechyd.
- Yr hyn sy'n meithrin hyder yw proses sy'n dryloyw a theg, yn ogystal â bod ag enw am gael ei gweithredu'n dda.
- Mae rhywfaint o bryder ynghylch y corff cofrestru mewn perthynas â defnyddio arian i ymchwilio i ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd i ymarfer ac a yw defnyddio arian fel hyn yn golygu y byddir yn lleihau'r arian i'r sectorau i ddarparu ar gyfer ymchwiliadau o'r fath.
- Mae angen eglurder ynghylch sut y byddai'r broses apelio'n gweithio.
- Roedd rhai ymatebwyr yn ystyried y dull gweithredu dau gam yn rhesymol fel y gallai farnu ar yr achosion posibl o dorri'r cod.
- Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu na ddylai gwrandawriad gael ei wneud yn gyhoeddus hyd nes i benderfyniad gael ei wneud mewn perthynas â'r honiadau.

Cwestiwn 4

Ydych chi'n credu y gellid llunio un cod ymddygiad ac ymarfer proffesiynol ar draws y sectorau perthnasol o ystyried eu rolau a'u cyfrifoldebau?

O'r 47 o ymatebwyr, roedd 49% yn cytuno mewn egwyddor y byddai un cod ymddygiad proffesiynol ar draws y sectorau perthnasol yn briodol ac roedd 6% yn gwrthwynebu'r cynnig hwn oherwydd bod y gweithlu addysg mor amrywiol. Roedd y 45% arall naill ai'n mynegi pryderon ynghylch sut y byddai hyn yn bosibl neu ni roesant ateb pendant.

Nododd yr ymatebwyr a gynigiodd sylwadau ar y cwestiwn hwn amrywiaeth o faterion oedd yn cynnwys y canlynol.

- Dylai'r holl bobl sy'n gweithio gyda phlant fod â safon i'w chynnal a dylai'r safon hon fod yn berthnasol nid yn unig i athro/athrawes yn yr ystafell ddosbarth ond i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant.
- Efallai y byddai yna ofynion penodol, yn ymwneud â'r grwpiau a nodir, y byddai angen eu cynnwys.
- Mae perygl y bydd un Cod, sy'n berthnasol i bob cyd-destun, mor gyffredinol nes ei fod yn mynd yn gwbl annilys fel sail i gamau disgyblu yng ngoleuni atgyfeiriad oddi wrth gyflogwr neu hysbysu tramgwydd perthnasol.
- Mae yna feysydd cyffredin y dylid eu cynnwys mewn cod ymddygiad i bawb a fyddai'n cofrestru, ond mae'n bosibl y bydd yna broblemau o ran dehongli ar gyfer cyd-destunau gwahanol ac addasrwydd i ymarfer.
- Bydd cyflwyno un cod â sefydliad newydd yn sylfaen iddo'n cyflwyno cysondeb mewn dyfarniadau yn ogystal â chynnig llwyfan i weithwyr proffesiynol, rhieni a phobl ifanc ddeall yn gliriach gyfrifoldebau craidd y gweithlu wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.
- Mae'n bwysig bod yr holl bobl y bydd y cod yn berthnasol iddynt yn cael eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu. Roedd yna awgrym hefyd oddi wrth rai y dylid adolygu'r cod ymhen llai na 5 mlynedd fel y gellir ei ddiwygio'n gyflym os bydd angen.

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno y dylid defnyddio'r broses penodiadau cyhoeddus i benodi aelodau i'r cyngor?

O'r 47 o ymatebwyr, roedd 64% yn cytuno y dylid penodi aelodau i'r cyngor drwy'r broses penodiadau cyhoeddus ac roedd 11% yn gwrthwynebu'r cynnig, gan argymhell y dylid eu hethol. Roedd y 25% arall naill ai â phryderon ynghylch y broses penodiadau cyhoeddus neu ni roesant ateb pendant.

Nododd yr ymatebwyr a gynigiodd sylwadau ar y cwestiwn hwn amrywiaeth o faterion oedd yn cynnwys y canlynol.

- Dylai'r holl broffesiwn addysgu allu pleidleisio dros athrawon ac ati sydd wedi cynnig eu hunain fel aelodau o'r cyngor. Nid yw'n ddigon cael cynrychiolwyr sefydliadau'n unig gan nad yw rhai pobl yn aelodau o

undebau llafur ac ati ond efallai eu bod yn teimlo, â chyfiawnhad, fod ganddynt rywbeth i'w gynnig i'r cyngor.

- Mae bod â nifer gyfartal o'r cynrychiolwyr cywir yn hollbwysig i sicrhau bod y broses o lunio polisiau a gwneud penderfyniadau'n briodol ac yn deg.
- Corff proffesiynol ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol sy'n glir ac yn amlwg yn annibynnol ac yn atebol yn ddemocrataidd i'r rheiny y mae'n eu cynrychioli.
- Mae'n bwysig rhoi sylw i gyfansoddiad y bwrdd mewn perthynas â'i faint a'r gofynion o ran sgiliau, profiad ac iaith y mae eu hangen. Roedd rhai ymatebwyr yn gofyn am sicrwydd ynghylch y gynrychiolaeth gyfrannol o bob sector.

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno y dylid penodi aelodau'r grŵp cynghori drwy enwebiadau gan sefydliadau penodol ac y dylai'r grŵp gael ei gadeirio gan un o gynrychiolwyr y sector perthnasol ar y cyngor er mwyn sicrhau bod cyswllt ffurfiol rhwng y cyngor gwneud penderfyniadau a'r grwpiau cynghori?

O'r 47 o ymatebwyr, roedd 64% yn cytuno y dylid penodi'r aelodau drwy enwebiadau ac y dylai grwpiau gael eu cadeirio gan gynrychiolwyr y sectorau perthnasol ac roedd 6% yn gwrthwynebu'r cynnig hwn. Roedd y 30% arall naill ai â phryderon ynghylch sut y câi aelodau'r grŵp eu penodi neu ni roesant ateb pendant.

Nododd yr ymatebwyr a gynigiodd sylwadau ar y cwestiwn hwn amrywiaeth o faterion oedd yn cynnwys y canlynol.

- Dylai aelodau grwpiau cynghori fod yn fwy cymesur â nifer y gweithwyr sydd wedi'u cofrestru ym mhob rhan o'r corff cofrestru.
- Dylid penodi aelodau am gylch tair blynedd i sicrhau parhad a dylai fod aelod wrth gefn enwebedig hefyd ym mhob sector.
- Mae angen mwy o eglurhad a manylion ar y cynnig hwn.
- I gynrychioli'r holl sectorau'n wirioneddol dylid gwneud penodiadau drwy geisiadau yn hytrach nag enwebiadau.
- Rhoddir cofnodion y grwpiau cynghori yn y parth cyhoeddus fel y gall y rheiny sydd wedi cofrestru fod yn sicr bod y grwpiau cynghori'n cynrychioli eu safbwyntiau a'u hanghenion yn effeithiol.
- Dylai'r corff gynnwys cynrychiolwyr o ystod eang o randdeiliaid ac nid dim ond cynrychiolwyr o'r gwahanol sectorau ym maes addysg.
- Rhaid gwneud yr holl benodiadau i'r grwpiau cynghori drwy etholiad, drwy broses deg a democrataidd.

Cwestiwn 7

Bwriadwn gasglu data ar lefel unigolyn mewn modd a fyddai'n gallu cael ei ddefnyddio mewn sawl ffordd, er mwyn rhoi trefn ar y gwaith o gasglu data a gwella ansawdd a hyblygrwydd. Fyddech chi'n cefnogi datblygiad o'r fath?

O'r 47 o ymatebwyr, roedd 70% yn cefnogi'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ar yr amod nad oedd yn waith beichus i'r rheiny fyddai'n cyflenwi'r wybodaeth a bod yr holl safonau diogelu data'n cael eu bodloni. Roedd 2% yn gwrthwynebu'r cynnig hwn ac unwaith eto eisiau i Lywodraeth Cymru ymgynghori â hwy ar y math o ddata a gâi eu casglu a'r ffyrdd y caent eu defnyddio. Roedd y 28% arall naill ai'n croesawu mwy o fanylion ac eglurhad ynghylch y defnydd o'r data cyn cynnig sylwadau neu ni roesant ateb pendant.

Nododd yr ymatebwyr a gynigiodd sylwadau ar y cwestiwn hwn amrywiaeth o faterion oedd yn cynnwys y canlynol.

- Byddai hyn yn ddefnyddiol yn nhermau lleihau maint y data y mae'n ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol eu cyflwyno i wahanol asiantaethau ar wahanol adegau o'r flwyddyn.
- Mae angen sefydlu trefniadau priodol i ddiogelu data, gan gynnwys protocolau ar gyhoeddi data a dadansoddi data, fel na ellir adnabod unigolion.
- Mae angen arfer rheolaeth ofalus barhaus ar y broses o rannu data er mwyn sicrhau y'i defnyddir yn briodol a bod y caniatâd priodol wedi'i sicrhau oddi wrth yr unigolyn i'w ddata gael eu rhannu a'u defnyddio.
- Nid oes dyletswydd gyfreithiol ar athrawon i gyflenwi na diweddarau rhai mathau penodol o wybodaeth bersonol.
- Mynegodd rhai ymatebwyr hefyd y farn y gallai'r data hyn gefnogi gweithgarwch DPP mwy targededig oherwydd byddai union nifer y proffesiynau, gan gynnwys meysydd pwnc/topig oedd yn cael eu cyflenwi, ar gael i helpu i gynllunio a chostio.
- Mewn un ymateb nodwyd bod colegau AB yn casglu mwy na 40 darn o ddata mewn cysylltiad ag unigolyn a lle bo modd efallai y byddai'n bosibl casglu hyn drwy'r corff cofrestru.
- Yn ddiau byddai gwaith cynllunio'r gweithlu'n cael ei wella gan allu'r corff cofrestru newydd i fanteisio ar ffynhonnell doreithiog o ddata.

Cwestiwn 8

Ydych chi'n credu y dylai'r corff cofrestru gael pwerau i achredu a rhoi cydnabyddiaeth broffesiynol i gyrsiau hyfforddiant cychwynnol perthnasol?

O'r 47 o ymatebwyr, roedd 53% yn cytuno'n gyffredinol y dylai'r corff cofrestru gael pwerau i gydnabod cyrsiau hyfforddiant cychwynnol perthnasol ac roedd 15% yn credu bod y pŵer i achredu yn mynd un cam yn rhy bell ac y dylai'r corff newydd

ganolbwyntio ar gofrestru yn unig. Roedd y 32% arall naill ai'n croesawu mwy o fanylion ac eglurhad ar y cynnig neu ni roesant ateb pendant.

Nododd yr ymatebwyr a gynigiodd sylwadau ar y cwestiwn hwn amrywiaeth o faterion oedd yn cynnwys y canlynol.

- Mae Sefydliadau Dyfarnu megis Grŵp Cynghori ar Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru eisoes yn cyflawni'r swyddogaethau hyn ac mae'r broses yn gweithio'n dda, dylai Llywodraeth Cymru osgoi dyblygu gwaith.
- Gallai darparu corff rheoleiddio gyda phwerau achredu ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol greu gwrthdaro buddiannau.
- Gallai hyn fod yn gam cadarnhaol ymlaen ond dim ond pe bai'n cael ei wneud mewn partneriaeth gyda darparwyr Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon (HAGA) a dim ond pe bai'n gwbl ymwybodol o alwadau a chyfyngiadau safonau academiaidd ac yn ymatebol iddynt, lle bo hyn yn berthnasol.

Cwestiwn 9

A ddylai'r corff hefyd fod â rôl sy'n ymwneud ag achredu hyfforddiant mewnol yn ôl yr angen ar draws y sectorau mewn meysydd allweddol megis rheoli ac arwain?

O'r 47 o ymatebwyr, roedd 38% yn cytuno'n gyffredinol y dylai'r corff fod â rôl i achredu hyfforddiant mewn swydd, ar yr amod nad oedd yn fiwrocraataidd nac yn feichus. Roedd 17% yn gwrthwynebu'r cynnig hwn. Roedd y 45% arall naill ai'n croesawu mwy o fanylder ac eglurhad ynghylch y cynnig neu ni roesant ateb pendant.

Nododd yr ymatebwyr a gynigiodd sylwadau ar y cwestiwn hwn amrywiaeth o faterion oedd yn cynnwys y canlynol.

- Mae'r cylch gwaith hwn gan y Sefydliadau Dyfarnu eisoes a dylai'r corff geisio gweithio gyda hwy a pheidio â dyblygu'r gwaith.
- Dylai deddfwriaeth ddarparu pwerau galluogi i'r swyddogaeth hon gael ei chyflawni pan fydd y cyngor newydd mewn sefyllfa i neilltuo amser ac adnoddau digonol.
- Byddai darparu corff rheoleiddio gyda phŵer achredu ar gyfer hyfforddiant mewn swydd ar draws y sectorau mewn meysydd allweddol sy'n ymwneud â gwaith y rheiny mae'n eu rheoleiddio yn gallu creu gwrthdaro buddiannau.
- Mae yna risg y byddai'r swyddogaeth hon yn tynnu sylw'r corff oddi ar y swyddogaethau sy'n brif ddiben iddo.
- Dylai'r corff fod yn gyfrifol, drwy ymgysylltu ac ymgynghori â phaneli cynghori sectorau, i ganfod a chytuno ar feysydd DPP i'r sectorau eu dilyn bob blwyddyn.

- Byddai rhoi marc safon i gyrsiau a DPP sefydliadau unigol yn gallu cael ei ystyried yn beth cadarnhaol.

Cwestiwn 10

Ydy'r ffioedd a awgrymwyd yn dangos gwahaniaeth teg rhwng yr amrywiol grwpiau sydd i gael eu cofrestru ac yn cynnig gwerth am arian o ran y rheoleiddio proffesiynol a gynigir?

O'r 47 o ymatebwyr, roedd 28% yn cytuno bod y ffioedd yn cynrychioli gwahaniaeth teg rhwng y grwpiau ac yn cynnig gwerth am arian. Nid oedd 15% yn cytuno ei fod yn deg nac y dylai'r aelodau dalu ffi cofrestru. Roedd y 57% arall naill ai'n mynegi pryderon ynghylch y ffi wahaniaethol neu ni roesant ateb pendant.

Nododd yr ymatebwyr a gynigiodd sylwadau ar y cwestiwn hwn amrywiaeth o faterion oedd yn cynnwys y canlynol.

- Ydy'r gyfradd yr un peth i athrawon sy'n gweithio contractau o wahanol hyd.
- Nid yw'n ymddangos bod y ffioedd yn adlewyrchu ystodau cyflog y grwpiau ac yn adlewyrchu'r rhychwant cyflogau.
- Ni fydd gwerth am arian yn dod yn amlwg ond pan fydd manylion y buddion yn dod yn glir i'r gwahanol grwpiau.
- Mae angen mwy o wybodaeth ac eglurder am ddiffiniad y grwpiau sy'n cael eu hystyried i'w cofrestru.
- Mae cyfradd unffurf ar draws yr holl sectorau yn hyrwyddo "cydraddoldeb".
- Ni fydd y ffioedd a awgrymwyd yn cynhyrchu digon o incwm i dalu am wariant y corff cofrestru wedi'i ehangu. Ni ellir llunio amcangyfrif realistig o'r ffioedd y mae eu hangen mewn gwirionedd ond pan gaiff y gweithgareddau eu cadarnhau, ond ni allant fod yn llai na meincnod y ffi gyfredol.
- Roedd gwahaniaeth barn gan ymatebwyr a gynigiodd sylwadau ynghylch pwy ddylai dalu'r ffi cofrestru. Roedd y safbwyntiau hyn yn ymwneud â'r taliad yn cael ei wneud gan yr unigolyn neu'r cyflogwr.

Cwestiwn 11

Ydych chi'n cytuno y dylid gadael i'r corff newydd bennu'r lefelau sy'n briodol o safbwynt ffioedd gwahanol ar gyfer grwpiau gwahanol a fyddai'n golygu ei fod yn gallu arfer ei annibyniaeth a'i ddisgresiwn wrth gyflawni ei raglen waith?

O'r 47 o ymatebwyr, roedd 49% yn cytuno y dylid gadael i'r corff newydd bennu'r lefel ffioedd briodol, fodd bynnag, roedd y mwyafrif sy'n cytuno hefyd yn teimlo y dylai'r corff ymgynghori cyn pennu ffi. Roedd 13% yn gwrthwynebu'r cynnig hwn ac yn teimlo y dylai'r Llywodraeth allu cadw ei fetu. Roedd y 38% arall a ymatebodd naill ai'n anghytuno â'r cwestiwn neu ni roesant ateb pendant.

Nododd yr ymatebwyr a gynigiodd sylwadau ar y cwestiwn hwn amrywiaeth o faterion oedd yn cynnwys y canlynol.

- Dylid seilio lefel y ffi ar gyngor o gytundebau tâl cenedlaethol.
- Ni ddylai'r corff allu cynyddu ffioedd heb ymgynghori â'r sectorau.
- Dylai Gweinidogion Cymru gadw hawl fetu dros unrhyw gynnydd mewn ffioedd.

Cwestiwn 12

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Ni chafwyd unrhyw ymatebion arwyddocaol mewn cysylltiad â'r cwestiwn hwn. At ei gilydd roedd yr ymatebion a gafwyd yn cefnogi'r syniad o gofrestru'r gweithlu addysg ehangach, fodd bynnag, teimlwyd bod angen mwy o eglurhad ar y cynigion arfaethedig yn yr ymgynghoriad hwn.